------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4**

**Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Mai 2023

Amser: 09.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru


**Yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2023, cytunodd y Pwyllgor ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw.**

**Cofrestru (09.15-09.30)**

1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.30)

2 **Adolygiad Annibynnol y Dreth Trafodiadau Tir: Cyflwyniad Alma Economics**

(09.30-10.15) (Tudalennau 1 - 20)

Eleni Kotsira, Uwch Ymchwilydd Cymdeithasol, Alma Economics

Graeme Keay, Ymgynghorydd, Alma Economics

**Dogfennau ategol**:

FIN(6)-09-23 P1 - Sleidiau'r cyflwyniad

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

3 **Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24: Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol**

(10.15-10.25) (Tudalennau 21 - 40)

**Dogfennau ategol**:

FIN(6)-09-23 P2 - Papur blaen

Senedd Cymru
Welsh Parliament

FIN(6)-09-23 P3 – Amcangyfrif Atodol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2023-24

FIN(6)-09-23 P4 – Amcangyfrif Atodol Comisiwn y Senedd ar gyfer 2023-24

## 4 Archwilio Cymru – Hysbysiad o derfynau amser archwilio

(10.25-10.30) (Tudalennau 41 - 46)

**Dogfennau ategol**:

FIN(6)-09-23 P5 – Archwilio Cymru – Hysbysiad o derfynau amser archwilio

## 5 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Ardrethu Annomestig

(10.30-10.40) (Tudalennau 47 - 68)

**Dogfennau ategol**:

FIN(6)-09-23 P6 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig

FIN(6)-09-23 P7 – Amserlen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Ardrethu Annomestig

FIN(6)-09-23 P8 – Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Y Bil Ardrethu Annomestig

FIN(6)-09-23 P9 – Nodyn cyngor y Gwasanaethau Cyfreithiol

## 6 Trafod llythyr drafft at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys

(10.40-10.45) (Tudalennau 69 - 71)

**Dogfennau ategol**:

FIN(6)-09-23 P10 – Llythyr oddi wrth Brif Ysgrifennydd y Trysorlys - 5 Mai 2023

FIN(6)-09-23 P11 – Trafod llythyr drafft at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 Diweddariad ar ymgysylltu â rhanddeiliaid

(10.45-10.50) (Tudalennau 72 - 77)

**Dogfennau ategol**:

FIN(6)-09-23 P12 – Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

## Cyllideb Atodol 1af - 2023/24

## Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Paratowyd y cyflwyniad Cyllideb Atodol hwn yn unol â Rheolau Sefydlog Senedd Cymru 18A.2 a 20.36 (dyddiedig Medi 2022).

### Crynodeb

Cynigir yr amrywiadau canlynol i'r cynnig cyllidebol blynyddol:

- **Swm o £74,000** i gwmpasu'r costau ychwanegol, uwchben y 3% a ganiateir yn y gyllideb, sy'n gysylltiedig â'r 'cynnig cyflog llawn a therfynol' a wnaed gan y Cyflogwyr Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol ym mis Chwefror 2023.
- Ers i'r dyfarniad a gynigiwyd gael ei wrthod, **swm pellach o £139,000** fel arian wrth gefn i dalu cost y dyfarniad cyflog hyd at 7.9%. (Os bydd y dyfarniad cyflog yn is, ni fyddai'r rhan berthnasol o'r £139,000 hwn yn cael ei thynnu i lawr neu caiff ei dychwelyd heb ei gwario ar ddiwedd y flwyddyn.)

### Cyd-destun

Mae cyflog staff wedi'i gysylltu'n gytundebol â thrafodaethau cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr. Fel y nodwyd yn yr amcangyfrif a gyflwynwyd ar y pryd, roedd Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2023-24 yn caniatáu 3% ar gyfer dyfarniad cyflog Ebrill 2023. Fodd bynnag, mae'r Cyflogwyr Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon bellach wedi gwneud 'cynnig cyflog llawn a therfynol' o £1,925 fesul aelod o staff. Ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru byddai hyn yn arwain at gynnydd cyffredinol o 4.7% mewn costau cyflog, 1.7% ychwanegol neu £74,000 yn uwch na'r hyn a ganiateir yn y gyllideb.

Fodd bynnag, mae'r undebau llafur wedi gwrthod y dyfarniad cyflog am eu bod yn ceisio sicrhau dyfarniad o (amcangyfrif y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer 2023) Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) yn ogystal â 2%, sy'n creu hawliad o 12.7%.

### Yr Effaith ar Gostau Staff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae setliadau cyflog llywodraeth leol wedi bod yn is na chwyddiant yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae cyflogwyr llywodraeth leol yn ymwybodol iawn o setliadau cyllid cyffredinol llywodraeth leol, a bydd y rhain yn cael eu hystyried yn y trafodaethau. Mae'r tabl isod yn crynhoi rhai o'r senarios posibl er mwyn dangos eu heffaith.


| Cost dyfarniad cyflog o sicrhau setliad ar: | Cynnig o 4.7% | Setliad cyllideb llywodraeth leol yng Nghymru – 7.9% | Canol ystod 8.7% | Hawliad 12.7% |
|---|---|---|---|---|
| Wedi'i gynnwys yng nghyllideb OGGC (3%) | £130,000 | £130,000 | £130,000 | £130,000 |
| Ychwanegiad i gyflawni cynnig presennol y cyflogwr | £74,000 | £74,000 | £74,000 | £74,000 |
| Swm pellach i gyflawni'r setliad arfaethedig | - | £139,000 | £175,000 | £349,000 |
| **Cyfanswm cost** | **£204,000** | **£343,000** | **£379,000** | **£553,000** |
| Y gyllideb ychwanegol sy'n ofynnol | £74,000 | £213,000 | £249,000 | £423,000 |

O sicrhau cytundeb y Cyflogwyr Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, byddai hawliad cyflog yr undebau llafur o 12.7% yn ychwanegu cost bellach (yn ychwanegol at y £74,000 a nodwyd uchod) o £349,000. Fodd bynnag, ystyrir bod y setliad mwyaf tebygol yn yr ystod o tua 7.9% (yn unol â setliadau cyllideb llywodraeth leol yng Nghymru) i 8.7% (y pwynt rhwng yr hawliad a'r cynnig presennol). Mae'r gost hon y tu hwnt i reolaeth yr Ombwdsmon am ei bod yn hawliad cytundebol o dan ddyfarniad cyflog cenedlaethol. Nid yw'r Ombwdsmon yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau cyflog.

Mae'r gyllideb atodol hon yn rhagdybio dyfarniad cyflog cyffredinol o 7.9%, yn unol â'r cynnydd cyffredinol i'r setliad cyllideb llywodraeth leol yng Nghymru. Caniateir ar gyfer 3% o hyn yn y gyllideb bresennol. Ceisir 1.7% pellach (£74,000) yn awr, gan mai dyma'r lefel isaf o ddyfarniad. Ceisir y 3.2% sy'n weddill (£139,000) fel arian wrth gefn. Os yw'r dyfarniad gwirioneddol yn is na 7.9%, caiff yr elfen gyfatebol ei dychwelyd / ni chaiff ei thynnu i lawr.

## Egwyddorion y gyllideb a'r posibilrwydd o liniaru costau

Mae Datganiad o Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid yn datgan yn glir y dylai cyrff sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol geisio sicrhau arbedion yn barhaus a cheisio lleihau costau i'r graddau y bo hynny'n bosibl.




Mae swyddfa'r Ombwdsmon wedi profi cynnydd cyson yn nifer yr ymholiadau a chwynion ond ni welwyd cynnydd cyfatebol yn nifer y staff gwaith achos. Mae'r graff yma'n dangos y bwlch cynyddol rhwng y gwaith achos a gwblhawyd a'r nifer o staff. Mae'n dangos cynnydd mewn arbedion o fwy na 13% ers 2015/16.

Mae'r cynnydd parhaus yn y nifer o ymholiadau a chwynion yn golygu bod pwysau sylweddol ar y staff. Mae cyfyngiadau cyllidebol eisoes yn golygu nad yw'n bosibl darparu ar gyfer bylchau sy'n deillio o absenoldeb mamolaeth/rhieni ac mae pryderon eisoes y gallai llwythi gwaith gyfaddawdu llesiant staff ymhellach.

Mae costau sy'n gysylltiedig â chyflog yn cynrychioli tua 80% o gyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac nid yw'n bosibl darparu ar gyfer cynnydd o'r fath mewn costau cyflogau drwy dorri cyllidebau eraill, ac mae'r mwyafrif o'r rhain yn gostau TG ac eiddo na ellir eu hosgoi neu gostau cyngor clinigol sy'n gysylltiedig â gwaith achos. Yn absenoldeb unrhyw arian wrth gefn, ni ellir darparu ar gyfer y costau cyflog ychwanegol hyn o fewn cyllidebau sydd wedi'u cymeradwyo eisoes. Mae'r cyllid cyfyngedig ar gyfer gwella gwasanaethau wedi'i glustnodi i ddatblygu gwefan newydd a fydd yn cyflawni anghenion achwynwyr a chyrff cyhoeddus yn well. Fel y dengys y grynodeb o'r gyllideb ar ddiwedd y cyflwyniad hwn, mae gwariant y gellir ei reoli mewn meysydd fel hyfforddiant staff, teithio, allgymorth, cyfathrebu yn gyfyngedig iawn, ac nid yw'r cyllidebau'n gallu cyflawni'r costau dyfarniad cyflog. Beth bynnag, byddai atal gwaith allgymorth ac ymgysylltu, hyfforddi staff ac ati yn amhoblogaidd iawn.

Yn ogystal, mae'r lefelau chwyddiant uchel presennol yn effeithio ar gyllidebau eraill yr Ombwdsmon, gyda chostau contract parhaus yn cynyddu yn unol â chwyddiant. Un enghraifft o hyn yw bod costau prif gontract TG yr Ombwdsmon wedi cynyddu 9%, mae Microsoft wedi cynyddu eu costau trwydded 9%. Mae Archwilio Cymru hefyd wedi cynyddu eu ffioedd o 10% a mwy ac mae'r costau trydan wedi dyblu fwy neu lai. Bydd yr Ombwdsmon yn gweithio i gynnal y cynnydd hwn i gostau, i'r graddau y bydd hynny'n bosibl. Fodd bynnag, am nad oes unrhyw gronfeydd wrth gefn yng nghyllideb yr Ombwdsmon, bydd hyn yn heriol.

## Y canlyniadau os na cheir cynnydd mewn adnoddau

Mae Datganiad o Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid yn datgan hefyd y dylai cyflwyniadau gynnwys y canlyniadau ac esbonio'n glir y dylai cyrff sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol geisio sicrhau arbedion yn barhaus a cheisio lleihau costau i'r graddau y bo hynny'n bosibl.

Nid oes unrhyw swyddi gwag ar hyn o bryd, a byddai unrhyw ostyngiadau i'r lefelau staffio yn gostus pe byddai hyn yn golygu diswyddiadau gorfodol. Byddai angen cyllideb atodol ychwanegol ar gyfer costau diswyddiadau.

Byddai unrhyw ostyngiad i'r lefelau staffio yn cael effaith andwyol ddifrifol beth bynnag ar lefelau gwasanaeth, cyrff cyhoeddus ac achwynwyr, a byddai'n creu mwy o oedi a gofid a phryder estynedig.

Am y rhesymau hyn, mae cyflwyno cyllideb atodol yn anochel yn awr.

## Y dull gweithredu arfaethedig

Mae amseriad setliad cyflog cytûn, yn ogystal â'i werth yn ansicr – mae wedi bod mor hwyr â'r mis Mawrth yn dilyn y dyddiad dod i rym. Mae'r ansicrwydd hwn ynghylch amseru yn ychwanegu at yr heriau. Yn dilyn trafodaeth gyda Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Phanel Cynghori'r Ombwdsmon, mae'r gyllideb atodol yn cael ei chyflwyno yn awr, i amlygu a rheoli'r risg. Ystyrir bod hyn yn ddarbodus ac yn dryloyw.

O ystyried yr ansicrwydd hwn, mae'r cyflwyniad cyllideb atodol hwn yn defnyddio'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, lle ceisir cyllid ar gyfer dyfarniad cyflog amcangyfrifedig, ond ar y ddealltwriaeth, os yw'r dyfarniad cyflog gwirioneddol yn is, ni fydd y swm cyfatebol yn cael ei dynnu i lawr neu caiff ei ddychwelyd heb ei wario.

Wrth gwrs, gallai'r dyfarniad cyflog gwirioneddol fod yn uwch na 7.9%. Os felly, byddwn yn ceisio cynnwys hyn o fewn y gyllideb ddiwygiedig, ond am y rhesymau a roddwyd uchod, efallai y bydd angen cyflwyno cyllideb atodol bellach.

## Yr Adnoddau a Geisir

Cynigir yr amrywiadau a ganlyn i'r cynnig cyllideb blynyddol:

- Swm o £74,000 i gwmpasu'r costau ychwanegol, uwchlaw'r 3% a ganiateir yn y gyllideb, sy'n gysylltiedig â'r 'cynnig cyflog llawn a therfynol' a wnaed gan y Cyflogwyr Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol ym mis Chwefror 2023.
- Swm pellach o £139,000 fel arian wrth gefn i gyflawni cost y dyfarniad cyflog hyd at 7.9%. (Os yw'r dyfarniad cyflog yn is, ni fydd y rhan berthnasol o'r £139,000 hwn yn cael ei thynnu i lawr neu caiff ei dychwelyd heb ei gwario ar ddiwedd y flwyddyn.)

| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2023/24** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif 2023/24 | Dyfarniad Cyflog | Amcangyfrif Diwygiedig |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 4,512 | 74 | 4,586 |
| Eiddo a chyfleusterau | 171 | | 171 |
| Ffioedd proffesiynol | 244 | | 244 |
| Costau TG | 250 | | 250 |
| Costau swyddfa | 108 | | 108 |
| Teithio, hyfforddiant a recriwtio | 40 | | 40 |
| Cyfathrebu | 65 | | 65 |
| Buddsoddiad ymrwymedig i wella gwasanaethau | 47 | | 47 |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer dyfarniad cyflog | - | 139 | 139 |
| **Cyfanswm Gwariant Refeniw** | **5,437** | **213** | **5,650** |
| Cyfanswm Incwm | (19) | | (19) |
| **Gwariant Refeniw Net** | **5,418** | **213** | **5,631** |
| Buddsoddiad i wella gwasanaethau – Gwariant Cyfalaf | 5 | | 5 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau sydd eu Hangen** | **5,423** | **213** | **5,636** |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 70 | | 70 |
| Dibrisiant – asedau wedi'u prydlesu | 222 | | 222 |
| Tâl llog – asedau wedi'u prydlesu | 7 | | 7 |
| Gwariant Cyfalaf a Reolir yn Flynyddol – dadfeiliadau | 28 | | 28 |
| **Cyfanswm y Gwariant ar Adnoddau** | **5,750** | **213** | **5,963** |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | (70) | | (70) |
| Dibrisiant – asedau wedi'u prydlesu | (222) | | (222) |
| Tâl llog – asedau wedi'u prydlesu | (7) | | (7) |
| Gwariant Cyfalaf a Reolir yn Flynyddol – dadfeiliadau | (28) | | (28) |
| Newid i gyfalaf gweithio | 198 | | 198 |
| Symudiadau eraill nad ydynt yn arian parod | 20 | | 20 |
| **Gofyniad Arian Parod gan Gronfa Gyfunol Cymru** | **5,641** | **213** | **5,854** |

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Mai 2023

Annwyl Peredur,

Rwy'n ysgrifennu atoch i ddwyn sylw’r Pwyllgor at newid arfaethedig yng nhgyllideb gymeradwy y Comisiwn ar gyfer 2023-24, drwy broses y Gyllideb Atodol.

Fe gofiwch i drafodaethau ynghylch y gyllideb gael eu cynnal yng nghyd-destun hinsawdd economaidd hynod heriol a disgwyliad y dylai Comisiwn y Senedd, fel sefydliadau eraill, ymdrechu i nodi arbedion effeithlonrwydd pellach i adlewyrchu hyn.

Fel y gwyddoch, esgorodd hyn ar ymarfer adolygu cyllideb manwl i nodi’r gostyngiadau isod:

- **Gostyngiad o £0.107 miliwn yn y gyllideb costau TGCh**
- **Gostyngiad o £0.208 miliwn yn y gyllideb Adeiladau a Chyfleusterau**
- **Gostyngiad o £0.120 miliwn yn y Gronfa Prosiectau**

Mae'r Comisiwn, felly, yn cynnig cyllideb Atodol ar gyfer cyfanswm cyllideb o £67.208 miliwn, sef gostyngiad o £435,000. Bydd y gofyniad arian parod net yn £61.536 miliwn.

Mae’r tabl isod yn dangos yr effaith ar gyllideb gyffredinol y Comisiwn ar gyfer 2023-24:

| £M | Cyllideb Gymeradwy £000 | Addasiadau arfaethedig £000 | Cyllideb ddiwygiedig arfaethedig £000 |
|---|---|---|---|
| Cyllideb adnoddau | 47.361 | (0.435) | 46.926 |
| Cyllideb y Penderfyniad | 17.834 | | 17.834 |
| Y Comisiynydd Safonau | 0.101 | | 0.101 |
| Y Bwrdd Taliadau | 0.547 | | 0.547 |
| Cyllideb gwariant a reolir yn flynyddol | 1.800 | | 1.800 |
| Cyfanswm | 67.643 | (0.435) | 67.208 |

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32, ar ôl i’ch Pwyllgor ystyried y cais hwn, bydd y Comisiwn yn gosod memorandwm esboniadol yn nodi'r cais cyntaf hwn am Gyllideb Atodol.

Mae copi o'r memorandwm esboniadol hwn wedi'i atodi er hwylustod i chi ac mae'n cynnwys mwy o fanylion am y newidiadau arfaethedig hyn. Rhowch wybod i mi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir



Ken Skates AS
Anfonwyd copi at Manon Antoniazzi

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cyllideb Atodol 2023-24:** Memorandwm Esboniadol

Mehefin 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cyllideb Atodol 2023-24:** Memorandwm Esboniadol

Mehefin 2023



# Cynnwys

**Cefndir** .......... **5**

**Memorandwm Esboniadol** .......... **6**

Diwygiadau i'r Gyllideb .......... 6

Effaith y Gyllideb .......... 6

**Cwmpas y gyllideb** .......... **7**

# Cefndir

Cafodd Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2023-24 ei chynnwys yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Tachwedd 2022, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

Roedd y cynnig cyllideb yn darparu £67.643 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn gan ddarparu:

- **£41.089 miliwn ar gyfer gwasanaethau'r Senedd; a**
- **£17.834 miliwn ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau o'r Senedd.**
- **£6.272 miliwn ar gyfer dibrisiant a thaliadau llog yn ymwneud â phrydlesi IFRS16;**

Darparwyd £1.800 miliwn ychwanegol ar gyfer addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd, a hynny drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol, a darparwyd £0.101 miliwn ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â swyddfa'r Comisiynydd Safonau a £0.547 miliwn ar gyfer cymorth y Bwrdd Taliadau.

Gosodir y Memorandwm Esboniadol hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.32, gan gefnogi newidiadau i'w cynnig i gyllideb atodol 2023-24 gymeradwy'r Comisiwn, drwy Gynnig Cyllideb Atodol.

# Memorandwm Esboniadol

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd lleihau cyllideb gyffredinol y Comisiwn o £0.435 miliwn, gyda gostyngiad cyfatebol yn y gofyniad arian parod net. Cynigir yr opsiynau a ganlyn:

- **Gostyngiad o £0.107 miliwn yn y gyllideb costau TGCh;**
- **Gostyngiad o £0.208 miliwn yn y gyllideb Adeiladau a Chyfleusterau**
- **Gostyngiad o £0.120 miliwn yn y Gronfa Prosiect**

## Diwygiadau i'r Gyllideb

Trafodwyd cyllideb 2023-24 yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Tachwedd 2022 a'r canlyniad oedd gofyn i'r Comisiwn leihau'r amcangyfrif cyffredinol.

Roedd yr amcangyfrif gwreiddiol yn darparu cynnydd o 4.06 y cant o gymharu â Chyllideb Atodol Gyntaf 2022-23.

Mae'r gyllideb ddiwygiedig hon yn lleihau cyfanswm y gyllideb i gynnydd o 3.39 y cant o gymharu â 2022-23.

Cyflawnwyd hyn drwy drafodaethau contract, gostyngiadau byd-eang mewn prisiau ynni a phenderfyniad corfforaethol i leihau gwariant ar brosiectau.

## Effaith y Gyllideb

Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn cynnig y canlynol:

- **Lleihad yng nghyllideb y Comisiwn o £0.435 miliwn.**
- **Lleihad yn y gofyniad arian parod net o £0.435 miliwn.**

# Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol atodol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 y Senedd i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb sy'n ofynnol yn ôl Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Senedd o ran adnoddau a gofynion y gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024.

Mae Cynnig y Gyllideb Atodol yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Senedd. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net y rhagwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod eu talu.

Nodir cyllideb ddiwygiedig 2023-24 ar gyfer Comisiwn y Senedd, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn, yn Nhabl 1 isod.

| | |
|---|---|
| **Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ('y Comisiwn') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; taliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn.**<br>Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn yr Aelodau o'r Senedd | **67,208** |
| **Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn:**<br>▪ o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu<br>▪ incwm rhent; rhoddion; grantiau; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Senedd. | **£170** |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion namyn derbynebau y gellir eu cadw disgwyliedig a TAW y gellir ei hadennill | **61,536** |

Mae tabl 2 isod yn cysoni'r gofyniad adnoddau net â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

| **Tabl 2: Gofyniad arian parod** | **£'000 2023-24 Gosodwyd** | **£'000 2023-24 Diwygiedig** |
|---|---|---|
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau | 17,834 | 17,834 |
| Swyddfa'r Comisiynydd Safonau | 101 | 101 |
| Costau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol | 547 | 547 |
| Diwygio'r Senedd | 571 | 571 |
| Gofyniad refeniw net y Comisiwn | 46,290 | 45,855 |
| Gofyniad cyfalaf net | 500 | 500 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 1,800 | 1,800 |
| **Is-gyfanswm** | 67,643 | 67,208 |
| Addasiadau | | |
| Dibrisiant | (5,406) | (5,406) |
| Taliadau llog/addasiadau cyfalaf | (866) | (866) |
| Taliadau rhent | 2,300 | 2,300 |
| Newidiadau mewn darpariaethau | (1,800) | (1,800) |
| Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr | 100 | 100 |
| **Is-gyfanswm** | (5,672) | (5,672) |
| **Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru** | 61,971 | 61,536 |
| **Gostyngiad** | | **(435)** |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y BIL ARDRETHU ANNOMESTIG**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (RhS) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru (y Senedd) os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Ardrethu Annomestig (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Mawrth 2023. Mae'r Bil i'w weld yma: https://bills.parliament.uk/bills/3442

**Amcanion polisi**

3. Amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU yw gweithredu nifer o newidiadau i'r system ardrethi annomestig yn Lloegr fel rhan o'i *Hadolygiad o Ardrethi Busnes*. Mae'r newidiadau'n canolbwyntio ar fesurau at ddiben cwtogi cyfnodau ailbrisio o bum mlynedd i dair blynedd, cyflwyno cynlluniau rhyddhad newydd, datgelu gwybodaeth i dalwyr ardrethi, materion na chaniateir eu hystyried mewn newidiadau i restrau, a gwelliannau gweinyddol i'r system.

4. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn bwriadu gweithredu'r *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes*. Rhaglen ar y cyd yw hon, o dan arweiniad Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF), a gafodd ei hestyn i gynnwys Cymru ar gais Llywodraeth Cymru. Bydd yn rhoi cyfle newydd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio data treth annatganoledig cysylltiedig, na fyddem yn gallu cael atynt y tu allan i'r rhaglen hon, i helpu i ddatblygu polisi ardrethi annomestig yn y dyfodol wedi'i deilwra i Gymru.

5. Ar 29 Mawrth 2022, gwnes Ddatganiad Llafar yn nodi fy nghynlluniau ar gyfer diwygio ardrethi annomestig yn y tymor byr a'r tymor canolig. Cynhaliais ymgynghoriad yn ddiweddar ar ystod o gynigion i ddiwygio'r dreth yng Nghymru. Bydd y cynigion hyn yn cael eu datblygu drwy ddeddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru, lle na fydd gwahaniaeth yn yr amseru a'r cwmpas yn peryglu rhoi talwyr ardrethi yng Nghymru o dan anfantais. Ar ôl ystyried yr opsiynau a'r dull o gyflawni ein hagenda ehangach ar gyfer diwygio ardrethi annomestig, rwyf wedi penderfynu mai'r dewis gorau yw gwneud rhai darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

6. Mae'r Bil yn gyfle i gyflwyno diwygiadau penodol yn gynharach nag a fyddai'n bosibl fel arall a, lle bydd swyddogaethau penodol asiantaethau Llywodraeth y DU yn cael eu haddasu, i sicrhau na fydd talwyr ardrethi yng Nghymru o dan anfantais. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio darpariaethau ar gyfer Cymru lle y mae nodau polisi yn cyd-fynd, a lle y ceir budd drwy sicrhau dulliau o gynorthwyo talwyr ardrethi cyn gynted ag y bo modd. Rydym hefyd wedi ceisio darpariaethau i gefnogi ein hymwneud parhaus â'r *Rhaglen Digideiddio*

*Ardrethi Busnes*. Mae hyn yn adlewyrchu natur ryng-gysylltiedig systemau ardrethi annomestig Cymru a Lloegr, a'r tebygrwydd gweinyddol rhyngddynt.

**Crynodeb o'r Bil**

7. Noddir y Bil gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi bod yn cydweithredu mewn trafodaethau â'm swyddogion ar ddatblygiad y Bil. Gofynnwyd am eglurder ynghylch ble y byddai'n fuddiol i ddarpariaethau fod yn gymwys i Gymru a Lloegr fel ei gilydd, a bu Llywodraeth y DU yn agored i gais Llywodraeth Cymru i gynnwys darpariaethau penodol yn y Bil.

8. Mae cysylltiad agos rhwng y broses o ddatblygu darpariaethau ac *Adolygiad Ardrethi Busnes* Llywodraeth y DU, a fu'n destun sawl ymgynghoriad. Roedd ymgynghoriad ar wahân ar *Ddigideiddio Ardrethi Busnes* yn cynnwys cynnig i estyn y rhaglen i Gymru.

9. Byddai'r darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil yn sicrhau'r hyn a ganlyn:
   - bod modd i gynlluniau rhyddhad wedi'u targedu gael eu sefydlu yn y dyfodol, drwy Gymal 1;
   - bod talwyr ardrethi'r rhestr ganolog yn cael eu trin yn gyson ledled Cymru a Lloegr pan fo'n briodol, drwy Gymal 3;
   - y gall fod yn ofynnol i swyddogion prisio ddarparu gwybodaeth berthnasol i dalwr ardrethi am ei hereditament ar gais, drwy Gymal 10;
   - y gellir rhannu gwybodaeth rhwng CThEF ac awdurdodau bilio, drwy Gymal 12;
   - y bydd yn ofynnol i dalwyr ardrethi ddarparu cyfeirnod trethdalwr i CThEF, a gefnogir gan drefn gydymffurfio gysylltiedig a mecanwaith apeliadau cysylltiedig, drwy Gymal 13;
   - mireinio'r broses o bennu'r lluosydd blynyddol, gydag awdurdodau lleol yn cael eu hysbysu'n gynharach os yw'n bosibl, drwy Atodlen 15.

10. Yn ogystal â'r darpariaethau uchod ar gyfer Cymru, bydd y Bil yn sicrhau y caiff swyddogion prisio ddatgelu gwybodaeth am brisio hereditamentau yng Nghymru a Lloegr i swyddogion ardrethu yng Ngogledd Iwerddon, i gefnogi eu swyddogaethau prisio statudol, drwy Gymal 11.

11. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud diwygiadau canlyniadol angenrheidiol, drwy Gymal 17; ac i gychwyn darpariaethau penodol sy'n gymwys o ran Cymru drwy gyfrwng offeryn statudol a gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed, drwy Gymal 19.

12. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn gymwys o ran Cymru.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

13. Mae'r memorandwm hwn yn ymwneud â darpariaethau penodol yng Nghymalau 1, 3, 10, 11, 12, 13, 15, 17 a 19 o'r Bil, a'r Atodlen iddo, sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig.

14. Mae cyllid llywodraeth leol, gan gynnwys ardrethi annomestig, yn fater datganoledig yng Nghymru. Mae trethi lleol i ariannu gwariant awdurdodau lleol yn eithriad i'r materion a gedwir yn ôl o ran polisi cyllidol, economaidd ac ariannol yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

15. Rwyf o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r darpariaethau a ganlyn sydd wedi'u cynnwys yn y Bil gan eu bod yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn enwedig ym maes ardrethi annomestig.

**Cymal 1 (Ardrethu lleol: atebolrwydd a rhyddhadau gorfodol ar gyfer hereditamentau a feddiennir)**

16. Mae Cymal 1 yn nodi'n gliriach ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â chynlluniau rhyddhad amrywiol ar gyfer hereditamentau a feddiennir ar restrau lleol Cymru a Lloegr drwy ailddatgan ac ailstrwythuro darpariaethau sydd ar hyn o bryd yn adrannau 43 a 44 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988), yn Atodlen newydd 4ZA.

17. Mae Cymal 1 hefyd yn cyflwyno rhyddhadau ardrethi annomestig newydd, sef rhyddhad ardrethi gwelliannau (ym mharagraff 3 o Atodlen 4ZA) a rhyddhad ardrethi rhwydweithiau gwresogi (ym mharagraff 6 o Atodlen 4ZA), a fydd yn gymwys mewn perthynas â hereditamentau a feddiennir ar restrau lleol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru (yn ogystal ag yn Lloegr).

18. Diben y rhyddhad ardrethi gwelliannau yw annog meddianwyr i ymgymryd â gwelliannau i'w heiddo busnes presennol a fydd yn arwain at newid cadarnhaol yn y gwerth ardrethol, wrth barhau i feddiannu eu heiddo.

19. Byddai'r rhyddhad ardrethi rhwydweithiau gwresogi yn rhoi rhyddhad o 100% i rwydweithiau sy'n cynhyrchu o ffynhonnell carbon isel a gallai gymell sefydlu rhwydweithiau gwresogi a fyddai'n gallu casglu a dosbarthu ynni adnewyddadwy.

20. Bydd ystyr "gwaith gwella cymwys" a "rhwydwaith gwresogi" yn cael ei ragnodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ac a fydd yn dilyn y weithdrefn negyddol. Bydd rheoliadau i estyn y cyfnod pan allai'r ddau ryddhad fod ar gael yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol gyda drafft yn cael ei osod gerbron y Senedd.

**Cymal 3 (Ardrethu canolog: atebolrwydd a rhyddhadau gorfodol)**

21. Mae Cymal 3 yn nodi'n gliriach ddeddfwriaeth bresennol ynghylch atebolrwydd a rhyddhadau gorfodol ar gyfer hereditamentau sydd ar restrau ardrethu canolog Cymru a Lloegr, gan gynnwys ailddatgan ac ailstrwythuro llawer o'r darpariaethau sydd ar hyn o bryd yn adran 54 o Ddeddf 1988 yn Atodlen newydd 5A.

22. Mae Cymal 3 hefyd yn cyflwyno rhyddhad ardrethi i elusennau (paragraff 2 o Atodlen 5A) a rhyddhad ardrethi gwelliannau (paragraff 3 o Atodlen 5A) ar gyfer hereditamentau cymwys ar restrau canolog Cymru a Lloegr.

23. Bydd ystyr "gwaith gwella cymwys" yn cael ei ragnodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y weithdrefn negyddol. Bydd rheoliadau i estyn y cyfnod pan allai'r rhyddhad hwn fod ar gael yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol gyda drafft yn cael ei osod gerbron y Senedd.

**Cymal 10 (Datgelu gwybodaeth brisio i dalwyr ardrethi)**

24. Mae Cymal 10 yn diwygio Deddf 1988 drwy fewnosod paragraff newydd 7B yn Atodlen 9. Bydd yn galluogi talwyr ardrethi i ofyn am wybodaeth Cyllid a Thollau mewn perthynas â'u hereditament gan Swyddogion Prisio (fel asiantiaid Asiantaeth y Swyddfa Brisio). Bydd hefyd yn caniatáu i Swyddogion Prisio gyflenwi gwybodaeth i dalwyr ardrethi mewn perthynas â'u hereditament neu ei werth ardrethol. Bydd Swyddogion Prisio yn cael caniatâd i reoli'r wybodaeth a ryddheir pan fyddant o'r farn na fyddai'n rhesymol datgelu neu pan fyddai datgelu yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data.

25. Bwriad y darpariaethau yw sicrhau bod talwyr ardrethi yn gallu cael gafael ar wybodaeth sy'n berthnasol i'w hereditament.

26. Mae Cymal 10 yn gymwys o ran Cymru a Lloegr. Bydd y darpariaethau sy'n gymwys o ran Cymru yn dod i rym yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (gweler Cymal 19).

**Cymal 11 (Datgelu gwybodaeth brisio i swyddogion ardrethu Gogledd Iwerddon)**

27. Mae Cymal 11 yn diwygio Deddf 1988 drwy fewnosod adran newydd 63D, sy'n darparu porth statudol er mwyn i'r Gwasanaethau Tir ac Eiddo (LPS) (sef yr asiantaeth yng Ngogledd Iwerddon sy'n cyfateb i Asiantaeth y Swyddfa Brisio) gael gwybodaeth Cyllid a Thollau a gedwir gan Swyddog Prisio mewn perthynas â hereditamentau yng Nghymru a Lloegr. Gall LPS ofyn am wybodaeth o'r fath os yw'n credu'n rhesymol y bydd hyn o gymorth i gyflawni ei swyddogaethau.

28. Mae'r Cymal hwn yn rhychwantu Gogledd Iwerddon. Byddai darpariaeth debyg mewn Bil gan y Senedd y tu allan i'w chymhwysedd gan ei bod yn estyn y tu hwnt i Gymru a Lloegr. Fodd bynnag, gan ei bod yn bosibl y bydd gwybodaeth yn cael ei datgelu am hereditamentau yng Nghymru, mae'r Cymal hwn yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig.

**Cymal 12 (Rhannu gwybodaeth ardrethi annomestig rhwng awdurdodau bilio a CThEF)**

29. Mae Cymal 12 yn diwygio Deddf 1988 drwy fewnosod is-adran newydd (1A) yn adran 63A ac adran newydd 63E. Bydd Cymal 12 yn galluogi rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau bilio a CThEF. Bydd awdurdodau bilio yn gallu

cael mynediad at wybodaeth a gedwir gan CThEF mewn perthynas â threthi eraill, tra bydd CThEF yn gallu cael mynediad at wybodaeth a gedwir gan awdurdodau bilio mewn perthynas ag ardrethi annomestig.

30. Bwriedir i'r darpariaethau gynorthwyo CThEF ac awdurdodau bilio wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau.

31. Mae Cymal 12 yn berthnasol o ran Cymru a Lloegr. Bydd hefyd yn dod i rym yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (gweler Cymal 19).

**<u>Cymal 13 (Gofynion i dalwyr ardrethi etc ddarparu gwybodaeth)</u>**

32. Mae Cymal 13 yn diwygio Deddf 1988 drwy fewnosod paragraffau newydd 4B i 4M, 5ZA i 5ZF, a 5BA i 5BF yn Atodlen 9. Bydd Cymal 13 yn nodi pryd y bydd yn ofynnol i dalwyr ardrethi ddarparu gwybodaeth i CThEF neu swyddogion prisio. Mae'r Cymal hefyd yn nodi cyfundrefnau cosbi i ddelio â diffyg cydymffurfio ac yn sefydlu proses apelio gysylltiedig.

33. Mae rhai o ddarpariaethau Cymal 13 y Bil yn gymwys o ran Cymru a Lloegr, sef Cymal 13(2), (4) a (6). Mae Cymal 13(2) yn mewnosod paragraffau newydd 4B i 4H yn Atodlen 9, gan ymdrin â'r ddyletswydd (newydd) ar dalwyr ardrethi annomestig i ddarparu cyfeirnod treth i CThEF. Caiff Comisiynwyr CThEF wneud rheoliadau i ddiwygio'r diffiniad o gyfeirnod treth a/neu i ddarparu nad yw'r ddyletswydd yn gymwys i berson(au) penodol. Darpariaethau gweinyddol yw'r rhain i sicrhau y gall CThEF gynnal y rhaglen yn effeithiol. Ni ellir ond gwneud rheoliadau o'r fath mewn perthynas â Chymru ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

34. Mae Cymal 13(4) yn mewnosod paragraffau newydd 5ZA a 5ZB yn Atodlen 9, gan greu system o gosbau a osodir gan CThEF pan fo talwyr ardrethi annomestig wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd newydd. Mae Cymal 13(6) yn mewnosod paragraffau newydd 5BA i 5BC yn Atodlen 9, gan ymdrin â'r broses adolygu ac apelio ar gyfer y cosbau a gyflwynir yng Nghymal 13(4).

35. Mae gweddill darpariaethau Cymal 13 yn gymwys i Loegr yn unig, gan nodi gofynion i ddarparu gwybodaeth i swyddogion prisio.

36. Y bwriad yw y bydd gwybodaeth a rennir o dan y darpariaethau yn galluogi'r *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes* i gael ei gweinyddu gan CThEF ledled Cymru a Lloegr ar y cyd.

37. Bydd Cymal 13(2), (4) a (6) – i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru – hefyd yn dod i rym yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (gweler Cymal 19).

**<u>Cymal 15 (Lluosyddion)</u>**

38. Mae Cymal 15 yn diwygio Atodlen 7 i Ddeddf 1988 drwy fewnosod Rhan A1 (sy'n gymwys o ran Lloegr yn unig) cyn Rhan 1 a diwygio paragraffau 5 a 6. Mae'r Cymal yn nodi darpariaethau sy'n ymwneud â gosod y lluosydd.

39. Mae darpariaethau penodol a nodir yng Nghymal 15 yn gymwys o ran Cymru:
    - Mae paragraff 3(a) yn cywiro gwall drafftio yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan roi'r term '*consumer*' yn lle '*retail*' wrth gyfeirio at y mynegai prisiau cymwys.
    - Mae paragraff 3(c) yn dileu arfer dalgrynnu annormal.
    - Mae paragraff 3(d) yn newid y weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.
    - Mae paragraff 4 yn dileu cyfyngiad amseru sy'n peri na ellir hysbysu awdurdodau lleol am y lluosydd nes bod y setliad llywodraeth leol wedi'i gytuno. Mae'r cyfyngiad presennol yn atal awdurdodau lleol rhag bwrw ymlaen â swyddogaethau bilio yn amserol pan fo gwerth y lluosydd yn hysbys yn gynharach.

**Cymal 17 (Darpariaeth ganlyniadol)**

40. Mae Cymal 17 yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau er mwyn gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o'r Bil hwn. Bydd rheoliadau o'r fath yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol os byddant yn diwygio neu'n diddymu darpariaeth a wnaed gan ddeddfwriaeth sylfaenol (fel y'i diffinnir yng Nghymal 17(10)). Bydd unrhyw reoliadau eraill a wneir o dan y pŵer hwn yn dilyn y weithdrefn negyddol.

41. Y bwriad yw sicrhau bod modd gwneud diwygiadau canlyniadol angenrheidiol at ddiben eglurder deddfwriaethol.

**Cymal 19 (Cychwyn a chymhwyso)**

42. Mae Cymal 19(4) a (5) yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i gychwyn Cymalau: 10; 12; 13(2), (4) a (6) (a 13(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r is-adrannau hynny); 15(3)(a), (c)(ii), (d) a (4) (a 15(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r is-adrannau hynny); a pharagraffau 39(a), 46, 49(c) a (d), 50 a 53(a) o Ran 4 o'r Atodlen (a 17(1)(d) a 40 o'r Atodlen i'r graddau y maent yn ymwneud â'r paragraffau hynny) yn y Bil drwy reoliadau. Mae Cymal 19(7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dwyn unrhyw ddarpariaeth i rym. I'r graddau y mae'r pwerau hyn yn ymwneud â darpariaethau datganoledig, byddai gwneud darpariaeth debyg mewn Bil gan y Senedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac o'r herwydd mae angen cydsyniad y Senedd.

**Yr Atodlen (Darpariaeth ganlyniadol)**

43. Diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o'r newidiadau deddfwriaethol a wneir gan Gymalau 1, 3, 12, 13, 15, 17, a 19. I'r graddau y mae'r darpariaethau yn yr Atodlen i'r Bil yn ganlyniadol i'r cymalau hynny sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, byddent hwythau o fewn ei chymhwysedd, ac o'r herwydd mae angen cydsyniad y Senedd.

44. Mae paragraffau 49(c) a 50 o’r Atodlen yn darparu y caiff Comisiynwyr CThEF, mewn perthynas â’r ddyletswydd ar dalwyr ardrethi i ddarparu cyfeirnod treth a nodir yng Nghymal 13, wneud rheoliadau mewn perthynas â hysbysiadau neu newid swm cosb, yn y drefn honno. Darpariaethau gweinyddol yw’r rhain i sicrhau y gall CThEF gynnal y *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes* yn effeithiol. Ni ellir ond gwneud rheoliadau o’r fath mewn perthynas â Chymru ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

**Dirprwyo pwerau**

45. Mae’r Bil fel y’i cyflwynwyd yn cynnwys pwerau dirprwyedig cyfyngedig mewn perthynas â Chymal 13 a Rhan 4 o’r Atodlen.

46. Nid oedd digon o amser cyn i’r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai’n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru. Serch hynny, gan eu bod yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben o fewn cymhwysedd y Senedd, bydd angen cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer.

47. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch yr hyn a fyddai’n briodol o ran dirprwyo pwerau, ac mae disgwyl trafodaethau pellach am y pwerau penodol hyn wrth i’r Bil fynd rhagddo.

**Safbwynt Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

48. Mae’r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau o’r farn bod Cymalau 1, 3, 10, 11, 12, 13, 15, 17, 18, 19 ac 20 a’r Atodlen yn cynnwys darpariaethau sy’n sbarduno’r broses cydsyniad deddfwriaethol.

49. Nid yw Llywodraeth Cymru o’r farn bod Cymalau 18 ac 20 yn sbarduno’r broses cydsyniad deddfwriaethol gan eu bod o natur weithredol ac nad ydynt yn cael effaith gyfreithiol.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil**

50. Dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir gwneud y newidiadau hyn. Ystyriwyd y posibilrwydd o wneud y newidiadau hyn drwy Fil gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Nodwyd ei bod yn addas bwrw ymlaen â’r newidiadau drwy Fil gan Lywodraeth y DU gan y byddai’n fuddiol i’w gweithredu cyn gynted ag sy’n ymarferol bosibl. Byddai aros am Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) sydd yn yr arfaeth gan Lywodraeth Cymru yn arwain at anfantais i Lywodraeth Cymru a thalwyr ardrethi yng Nghymru a byddai aildrefnu Bil y Senedd yn cael effeithiau negyddol ehangach ar ein rhaglen ddeddfwriaethol.

51. Mae’r newidiadau yng Nghymal 1 yn golygu bod modd rhoi cymorth wedi’i dargedu i dalwyr ardrethi yng Nghymru ar sail debyg i dalwyr ardrethi yn Lloegr. Nid ydynt yn gosod unrhyw oblygiadau ariannol ar Lywodraeth Cymru; yn hytrach, maent yn rhoi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru sefydlu cynllun rhyddhad. Rhagwelir y bydd Llywodraeth y DU yn bwriadu defnyddio’r pŵer gwneud rheoliadau hwn o 1 Ebrill 2024 ymlaen. Drwy fwrw ymlaen â’r darpariaethau hyn yn y Bil, ni fyddai Gweinidogion Cymru o dan anfantais o ran

y modd y gallent ddylunio cynllun o'u cymharu â'u Gweinidogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU. Byddai defnyddio Bil diweddarach gan y Senedd yn rhoi busnesau a thalwyr ardrethi eraill yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â'r rheini yn Lloegr, yn y cyfamser. Gallai pwerau i sefydlu rhyddhad ardrethi gwelliannau helpu i gymell buddsoddi a bod yn ddull o fynd i'r afael â phryderon a fynegwyd gan gyrff cynrychiadol fod y system ardrethi annomestig yn annog peidio â buddsoddi. Yn yr un modd, byddai pwerau i sefydlu rhyddhad rhwydweithiau gwresogi yn cynnig cyfle i roi rhyddhad ac yn cefnogi datblygiad strategaeth wres Llywodraeth Cymru.

52. Diben pennaf y newidiadau yng Nghymal 3 yw cywiro anghysondeb sydd i'w weld yn y system. Gan fod y rhestr ganolog yn gweithredu ar draws ardaloedd daearyddol mawr, yn aml ar gyfer talwyr ardrethi â gwerthoedd ardrethol uchel, mae'n bwysig bod cysondeb yn parhau rhwng y sylfaen drethu yng Nghymru a Lloegr. Byddai gohirio'r newid hwn nes bod offeryn deddfwriaethol ar waith yng Nghymru yn rhoi'r talwyr ardrethi hynny o dan anfantais gymharol ac yn creu diffyg eglurder yn y gyfraith.

53. Mae Cymal 10 yn golygu bod modd trin talwyr ardrethi yng Nghymru a Lloegr yn gyson â'i gilydd. O ystyried natur ryng-gysylltiedig cyfundrefnau ardrethi annomestig perthnasol Cymru a Lloegr (a'r ffaith bod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn asiantaeth drawsffiniol), byddai'n briodol gwneud darpariaeth ar gyfer y ddwy ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol. Pe na bai'r ddarpariaeth hon yn gymwys o ran Cymru, byddai Swyddogion Prisio yn cael datgelu gwybodaeth brisio mewn perthynas â hereditament yn Lloegr, ond ni fyddai pŵer tebyg ar gael mewn perthynas â hereditamentau yng Nghymru. Bydd y ddarpariaeth yn sicrhau mwy o eglurder a thryloywder gan y bydd yn galluogi talwyr ardrethi i geisio'r dystiolaeth a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd ardrethol eu hereditamentau. Bwriad rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i gychwyn y ddarpariaeth hon drwy reoliadau o ran Cymru yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu rheoli amseriad y broses weithredu. Rhoddir pŵer cyfatebol i'r Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio i sicrhau bod newidiadau'n cael eu cyflwyno ar adeg pan fyddant yn gallu cael yr holl effaith a ddymunir. Y bwriad yw cyflwyno'r rhain tra bo rhestr ardrethu 2023 ar waith ac o bosibl cyn i Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) sydd yn yr arfaeth, sef yr offeryn deddfwriaethol addas nesaf, gael y Cydsyniad Brenhinol.

54. Pe bai'r Senedd yn bwriadu deddfu darpariaethau tebyg mewn Bil gan y Senedd, ni fyddai'n gallu gwneud hynny heb gydsyniad Trysorlys EF, a hynny yn rhinwedd y cyfyngiad ym mharagraff 8 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sef bod y ddarpariaeth yn rhoi/gosod swyddogaeth ar awdurdod a gedwir yn ôl.

55. Mae Cymal 11 yn galluogi swyddogion ardrethu yn LPS Gogledd Iwerddon i gael mynediad at wybodaeth a gedwir gan Swyddog Prisio a allai eu cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau statudol. Mae gwybodaeth a gedwir gan Swyddog Prisio yn cynnwys gwybodaeth am hereditamentau a thalwyr ardrethi yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi nodau'r

darpariaethau o ran helpu swyddogion ardrethu yng Ngogledd Iwerddon i ddarparu prisiadau mwy cywir i dalwyr ardrethi a lleihau'r risg o golli refeniw.

56. Pe bai’r Senedd yn bwriadu deddfu darpariaethau tebyg mewn Bil gan y Senedd, byddent y tu allan i’w chymhwysedd gan eu bod yn estyn y tu hwnt i Gymru a Lloegr.

57. Mae Cymalau 12 a 13 yn sefydlu'r pyrth gwybodaeth angenrheidiol i alluogi gweithredu'r *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes*. Bydd y rhaglen yn cael ei gweithredu gan CThEF ledled Cymru a Lloegr, fel y gallwn elwa ar set ddata gysylltiedig bwerus, gan gynnwys data treth CThEF, na fyddem fel arall yn gallu cael mynediad atynt. Er mwyn cyflawni'r rhaglen, bydd rhai o ddarpariaethau'r Bil yn addasu swyddogaethau CThEF, drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt rannu gwybodaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru. Byddai gwahaniaeth mewn dull gweithredu yn peri risg na fyddai talwyr ardrethi Cymru, awdurdodau bilio yng Nghymru, na Llywodraeth Cymru yn gallu elwa ar y rhaglen. Os na fyddwn yn cynnal ein hymwneud â datblygu’r rhaglen, efallai y bydd yn anos ac o bosibl yn gostus ac yn anymarferol ei hailestyn i Gymru yn ddiweddarach.

58. Pe bai’r Senedd yn bwriadu deddfu darpariaethau tebyg mewn Bil gan y Senedd, ni fyddai’n gallu gwneud hynny heb gydsyniad Trysorlys EF, a hynny yn rhinwedd y cyfyngiad ym mharagraff 8 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sef bod rhai o’r darpariaethau’n rhoi/gosod swyddogaeth ar awdurdod a gedwir yn ôl.

59. Mae newidiadau yng Nghymal 15 yn gysylltiedig â chyfrifo’r lluosydd. Fe’u gwneir yn awr gan eu bod, yn rhannol, yn cywiro gwallau deddfwriaethol presennol ac yn sicrhau eglurder deddfwriaethol pellach. Byddai’n afresymegol gadael gwallau heb eu newid am fwy o amser nag sy’n angenrheidiol. Mae newidiadau penodol hefyd yn darparu ar gyfer gwell sicrwydd i awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaeth filio, a hynny drwy alluogi gweithrediad lluosydd newydd mewn systemau TG yn gynharach. Mae hyn yn sicrhau y gall talwyr ardrethi yng Nghymru gael biliau amserol ac nad ydynt o dan anfantais o’u cymharu â thalwyr ardrethi yn Lloegr.

60. Mae Cymal 17 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau sy’n ganlyniadol i’r Bil o ran Cymru. Mae’r pŵer hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau eglurder y gyfraith.

61. Mae Cymal 19 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gychwyn Cymalau: 10; 12; 13(2), (4) a (6) (a 13(1) i'r graddau y mae’n ymwneud â'r is-adrannau hynny); 15(3)(a), (c)(ii), (d) a (4) (a 15(1) i'r graddau y mae’n ymwneud â'r is-adrannau hynny); a pharagraffau 39(a), 46, 49(c) a (d), 50 a 53(a) o Ran 4 o'r Atodlen (a 17(1)(d) a 40 o'r Atodlen i’r graddau y maent yn ymwneud â'r paragraffau hynny), i sicrhau bod y cyfrifoldeb dros gychwyn y darpariaethau hyn yn aros yng Nghymru.

62. Mae newidiadau yn yr Atodlen yn ganlyniadol i'r newidiadau polisi a geisir mewn cymalau yn y Bil drwyddo draw. Mae'r newidiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau eglurder y gyfraith.

63. Cyflwynwyd y newidiadau uchod ar gais Llywodraeth Cymru, gan gydnabod pwysigrwydd cyflwyno'n brydlon a bod cysondeb trawsffiniol yn fuddiol i dalwyr ardrethi ac i Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

64. Cydnabyddir y byddai rhai darpariaethau eraill yn y Bil yn ddymunol ar gyfer Cymru, heb yr un effaith ar dalwyr ardrethi pe baent yn cael eu gweithredu'n ddiweddarach. Cydnabyddir y byddai anghysondebau rhwng y ddwy system ardrethu pe na baent yn cael eu cyflwyno yn unol â'r Bil. Fodd bynnag, nodwyd mai bach iawn yw'r risg y byddai'r darpariaethau hyn yn cael effaith negyddol ar dalwyr ardrethi yn y cyfnod pan fo amrywiad rhwng y ddwy system. Nodwyd ei bod yn addas ystyried cynnwys y rhain mewn Bil gan y Senedd yn y dyfodol. O ganlyniad, ni cheisiwyd eu cymhwyso i Gymru yn y Bil, ac nid oes angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer.

**Goblygiadau ariannol**

65. Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â'r Bil.

66. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu darparu rhyddhadau newydd ar ôl i'r Bil gael ei basio, a bydd manylion y rhain yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn aros am ragor o wybodaeth am unrhyw gyllid canlyniadol a fyddai'n deillio o gynlluniau o'r fath, maes o law.

**Casgliad**

Fy marn i yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Lywodraeth y DU, a hynny er mwyn sicrhau nad yw talwyr ardrethi yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â thalwyr ardrethi yn Lloegr. Mae natur ryng-gysylltiedig systemau Cymru a Lloegr a rôl drawsffiniol Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd yn rhesymau dros fwrw ymlaen â'r ddarpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth â thalwyr ardrethi ar yr un pryd ac yn yr un offeryn deddfwriaethol. Bydd y *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes* yn darparu gwybodaeth well i bawb perthnasol er mwyn sicrhau systemau treth mwy effeithlon ac effeithiol a byddai'n anodd cyflawni hyn ar sail Cymru yn unig. Gofynnir am gydsyniad y Senedd i ymdrin â darpariaethau yng Nghymalau 1, 3, 10, 11, 12, 15, 17 a 19 a'r Atodlen (ac eithrio paragraffau 49 a 50) drwy'r Bil hwn gan Lywodraeth y DU. Serch hynny, bydd angen ystyried ymhellach bwerau dirprwyedig yng Nghymal 13 a pharagraffau 49 a 50 o'r Atodlen. Tra mae'r materion hyn yn parhau i gael eu hystyried, ni allaf eto argymell bod y Senedd yn cydsynio i'r Bil yn ei gyfanrwydd.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**11 Ebrill 2023**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Amserlen i'w hystyried:
# Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Ardrethu Annomestig

Ebrill 2023

Ar 25 Ebrill 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Ardrethu Annomestig a chyflwyno adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 22 Mehefin 2023.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

18 Mai 2023

Annwyl Rebecca

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig

Yn ein cyfarfod yr wythnos hon buom yn trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (y Memorandwm).

Er mwyn llywio ein hystyriaeth o'r Memorandwm yn llawn cyn inni adrodd i'r Senedd, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad i'r llythyr hwn erbyn 1 Mehefin 2023.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

Cwestiwn 1: Mewn mannau amrywiol yn y Memorandwm (gan gynnwys paragraffau 4, 6, 7 a 63) rydych yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio a gofyn am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. A allwch gadarnhau pryd y dechreuodd trafodaethau cydweithredol gyda Llywodraeth y DU a phryd y ceisiwyd yn ffurfiol am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

Cwestiwn 2: Ym mharagraffau 45 i 47 o'r Memorandwm rydych yn nodi'r pwerau sydd wedi'u dirprwyo mewn perthynas â chymal 13 a Rhan 4 o'r Atodlen. Rydych yn dweud "Nid oedd digon o amser cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru". Rydych yn nodi hefyd bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'i bod yn "disgwyl trafodaethau pellach am y pwerau penodol hyn wrth i'r Bil fynd rhagddo".

a) O ystyried y sylwebaeth yr ydym wedi tynnu sylw ato yng nghwestiwn 1 - ei bod yn ymddangos y bu cydweithio ar y Bil – a fyddech cystal â rhoi eglurder pellach ynghylch sut a pham nad oedd "digon o amser cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru".

b) Rydym yn nodi bod y Bil yn debygol o gwblhau ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin erbyn diwedd mis Mai, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei ystyried gan Dŷ'r Arglwyddi. Os bydd eich trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn arwain at welliannau yn cael eu gwneud i'r Bil yn ystod ystyriaeth yr Arglwyddi sy'n rhoi pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru, a wnewch chi gadarnhau y byddwch yn gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol gofynnol (sy'n cynnwys manylion llawn yr holl newidiadau perthnasol a wneir i'r Bil) mewn modd amserol i ganiatáu digon o amser i bwyllgorau'r Senedd ymgymryd â'u gwaith craffu.

Cwestiwn 3: Ym mharagraff 39 o'r Memorandwm rydych yn nodi bod nifer o ddarpariaethau yng nghymal 15 o'r Bil yn berthnasol i Gymru. Yn benodol, rydych yn dweud bod is-adran 3(d) yn "newid y weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft". Cafodd y pŵer hwn i wneud rheoliadau, a'r weithdrefn graffu gadarnhaol 'gwnaed' sydd ynghlwm wrtho, ei ddirprwyo i Weinidogion Cymru drwy *Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021*. Ni roddir esboniad manwl o ran pam yr ydych yn defnyddio Bil y DU i newid (drwy israddio) gweithdrefn graffu ar gyfer pŵer dirprwyedig a gymeradwywyd gan y Senedd ei hun ddwy flynedd yn ôl yn unig. A allech roi esboniad trylwyr ynghylch pam fod y newidiadau a gyflwynwyd gan gymalau 15(3)(d) a 15(4) yn cael eu gwneud.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

HM Treasury, 1 Horse Guards Road, London, SW1A 2HQ

Peredur Owen Griffiths
Chair of the Senedd's Finance Committee
Bae Caerdyyd,
Caerdydd
CF99 1SN

5 May 2023

Dear Peredur,

Invitation to Senedd Finance Committee

1. Thank you for your letter of the 22 March inviting me to attend a session of the Senedd's Finance Committee.

2. I recognise the importance of the Committee's role in providing rigorous scrutiny of the Welsh budget and holding Welsh Government ministers to account for their policy and budgetary decisions. At the same time I am mindful of parliamentary accountabilities, where the UK Government is accountable to the UK Parliament for its tax and spending decisions. I will therefore not be accepting your invitation.

3. In addition to the role of the UK Parliament in holding the UK Government to account, the Office for Budget Responsibility also provides independent scrutiny of UK Government tax and spending decisions.

4. The UK Government will also continue to engage with the Welsh Government on funding decisions and their impact on devolved matters as part of the wider operation of the Welsh Government's fiscal framework.

with very best regards

John

RT HON JOHN GLEN MP
Chief Secretary to the Treasury

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon